

Red Meat Development Programme Pasture Renovation



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

The Red Meat Development Programme is managed by Hybu Cig Cymru on behalf of Farming Connect.

This factsheet is part of a series of factsheets covering a wide range of topics. They are all available from HCC at www.hccmpw.org.uk.



Pasture renovation can be a method of improving grassland production without the need to plough. There may be underlying causes of lower field productivity such as compaction, poor drainage, low

pH or low phosphate and potash indexes. Correcting one or all of these may go some way to improving grass growth before renovation is carried out.

Renovation is suitable where

- You need to keep grass in production
- Sward density needs to be increased
- Damaged swards need repairing e.g. poached swards
- Land conditions prevent ploughing or other cultivation
- You want to increase clover content
- You want to introduce more productive varieties.

Timing of pasture renovation

- In the spring when there is plenty of moisture in the soil and a long growing season ahead.
However, this may not be an ideal time if there is high pressure on early season grazing, or low soil temperatures can mean slow establishment.
- After silage making swards are more open and require less harrowing to create the right conditions.
The risk of prolonged dry conditions is less after later cuts (July/August). This is often the best timing. Clover seed needs to be sown by early August.

Choose the right varieties:

The right variety for your situation will depend on your farm and your management practices. Advice on choosing the right variety can be obtained from the Grassland Development Centre, IBERS or your seed merchant. Further information can also be found in the HCC booklet 'Grassland Management'.

Choose a method – over-seeding or direct drilling

For either method graze area until sward height is down to 3 – 4 cm.

Over-seeding

1. Harrow or rake area in two directions until the sward is open and most of the weed grasses and trash in the bottom of the sward have been removed (normally 2 - 6 passes).
2. Aim to achieve at least 25% bare soil surface for good soil to seed contact.
3. Spread seed immediately after harrowing or on the last pass if using a machine with a seed box.
4. If using a fertiliser spinner it is wise to bulk up seed with P and K fertiliser or sand.
5. If broadcasting clover it is vital to mix the seed in the hopper frequently as it will settle to the bottom very quickly.
6. Apply P and K if needed but NO nitrogen.
7. Mob stock to trample in seed or roll with flat rollers.



Direct drilling

This has the advantage of ensuring a good contact between soil and seed, producing higher germination rates than over-seeding techniques. Slug pellets are usually needed with this technique and can be applied with the seed. Problems can arise from drills placing seed too deep and from sheep selectively grazing out lines of new seedlings. The cost of using a slot seeder is usually greater than the cost of over-seeding.



After sowing for both methods

1. Continue to graze quite hard until the seedlings emerge (normally 7-10 days).
2. Remove the stock and rest the area for 4-5 weeks.
3. Graze hard (mob stock) to a sward height of 3-4 cm and rest again.

Repeat this process for the rest of the season until grass growth finishes. It is a balancing act between not overgrazing and removing seedlings and not allowing the existing sward to smother the new seedlings.



Rhaglen Datblygu Cig Coch Adnewyddu Porfeydd



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Mae'r Rhaglen Datblygu Cig Coch yn cael ei rheoli gan Hybu Cig Cymru ar ran Cyswllt Ffermio. Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhan o gyfres o daflenni gwybodaeth sy'n edrych ar bob math o bynciau. Maent ar gael oddi wrth HCC yn www.hccmpw.org.uk.



Gall adnewyddu porfeydd fod yn ddull o wella cynnyrch tir glas heb ei aredig. Gellir priodoli cynhyrchiant isel caeau i achosion sylfaenol fel cywasgiad, draenio gwael, pH isel neu lefelau ffosffad neu

botash isel. Gall cywiro un neu bob un o'r rhain wneud llawer i wella tyfiant cyn gwneud gwaith adnewyddu.

Mae adnewyddu'n addas os

- Ydych am barhau i dyfu glaswellt
- Oes angen cynyddu dwysedd y borfa
- Oes angen adfer y borfa e.e. porfa wedi'i sathru
- Yw amodau'r tir yn eich rhwystro rhag aredig neu ei drin mewn ffordd arall
- Ydych am gynyddu'r cynnwys meillion
- Ydych am gyflwyno rhywogaethau mwy cynhyrchiol.

Amseru adnewyddu porfa

- Yn y gwanwyn pan fydd digonedd o leithder yn y pridd gyda thymor tyfu hir o'ch blaen.
Fodd bynnag, efallai na fydd hwn yn amser delfrydol os oes pwysau mawr ar bori tymor cynnar, neu gall tymheredd isel y pridd olygu bod angen cryn amser i'r borfa sefydlu.
- Ar ôl gwneud silwair mae porfeydd yn fwy agored ac mae angen llai o ogedu i greu'r amodau iawn.
Mae'r perygl o gyfnodau sych hir yn llai ar ôl lladd gwair hwyr (Gorffennaf/Awst). Dyma'r adeg gorau'n aml. Mae angen hau hadau meillion erbyn dechrau Awst.

Dewis y rhywogaethau cywir:

Bydd y rhywogaeth orau ar gyfer eich amgylchiadau'n dibynnu ar eich fferm a'r arferion rheoli. Gellir cael cyngor ar ddewis y rhywogaeth orau oddi wrth y Ganolfan Datblygu Tir Glas, IBERS neu'ch gwerthwr hadau. Ceir rhagor o wybodaeth hefyd yn llyfryn HCC 'Rheoli Glaswellt'.

Dewis dull – tros-hau neu ddrilio uniongyrchol

Yn achos y ddau ddull dylid pori'r tir hyd nes bydd uchder y borfa'n 3 – 4 cm.

Tros-hau

- Dylid ogedu neu racanu mewn dau gyfeiriad hyd nes bydd y borfa'n agored a'ch bod wedi cael gwared ar y rhan fwyaf o'r chwyn a'r bawiach ar waelod y borfa (fel arfer bydd angen mynd drosto 2-6 gwaith)
- Ceisiwch gael o leiaf 25% o bridd moel i alluogi'r hadau i sefydlu.
- Heuwch yr hadau'n syth ar ôl ogedu neu wrth fynd drosto'r tro olaf os ydych yn defnyddio peiriant a blwch hadau.
- Os ydych yn defnyddio troellwr gwrtaitth mae'n werth cymysgu'r hadau â gwrtaitth P a K neu dywod.
- Os ydych chi'n taenu meillion mae'n bwysig eich bod yn cymysgu'r hadau'n aml yn yr hopran gan eu bod yn setlo ar y gwaelod yn gyflym iawn.
- Defnyddiwch P a K os bydd angen ond DIM nitrogen.
- Un ai defnyddiwch anifeiliaid i sathru'r hadau neu defnyddiwch roler fflat.



Drilio uniongyrchol

Mantais hyn yw sicrhau cyffyrddiad da rhwng y pridd a'r hadau, sy'n golygu eu bod yn egino'n well na thros-hau. Fel arfer bydd angen pelenni gwllithod gyda'r dechneg hon a gellir eu taenu gyda'r hadau. Gall problemau godi os bydd driliau'n hau'r hadau'n rhy ddwfn ac os bydd defaid yn pori ar y tyfiant newydd. Mae'r gost o ddefnyddio heuwr agen yn uwch fel arfer na thros-hau.



Ar ôl hau ar gyfer y ddau ddull

- Dylid parhau i bori'n eithaf trwm tan i'r tyfiant newydd ddod i'r golwg (7-10 diwrnod fel arfer).
- Dylid symud yr anifeiliaid a gadael i'r tir orffwys am 4-5 wythnos.
- Pori'n galed eto hyd nes bydd y borfa'n 3-4cm o uchder ac yna'i orffwys eto.

Ailadroddwch y broses hon am weddill y tymor hyd nes bydd y glaswellt yn rhoi'r gorau i dyfu. Mae'n fater o gael cydbwysedd rhwng peidio gorburi a gwaredu eginblanhigion a pheidio caniatáu i'r borfa sydd yno eisoes gyfer tyfiant newydd.

